# LC1296

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) (Cymru) 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn darparu swm yr iawndal sydd yn daladwy pan fo’r Cynulliad Cenedlaethol yn cigydda anifail buchol o dan Atodlen 3 o Reoliadau Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn rheoliad 2 o’r testun Saesneg, caiff y diffiniad o "TSE" ei ddrafftio fel "transmissible spongiform encephalopathy". Yn y testun Cymraeg, caiff y diffiniad ei ddrafftio yn lluosog. Fodd bynnag, gan na ddefnyddir y term diffiniedig hwn yn y Rheoliadau ac ar sail y ffaith nad yw "TSE" yn y cyfeiriad at Reoliadau TSE (Cymru) 2002 yn rheoliad 6 yn gyfeiriad at y term diffiniedig, credir y dylid dileu’r diffiniad. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Yn nhestun Cymraeg rheoliadau 3(a), (b) a (c) a 5(3) caiff "enseffalopathïau" ei sillafu’n anghywir fel "enseffalopathiau". [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Gellir cywiro’r gwallau drafftio a nodwyd uchod drwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y rheoliadau ynghylch diwygiad posibl i'r Nodyn Esboniadol.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 6 Mehefin 2006